# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Mai 2015 i'w hateb ar 12 Mai 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith canlyniad etholiad cyffredinol y DU ar bolisïau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2262(FM)

**2. Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed dros y pedair blynedd diwethaf mewn perthynas â strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2264(FM)**W**

**3. Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru i gefnogi ein seilwaith ffyrdd? OAQ(4)2265(FM)

**4. Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu prif amcanion y ddarpariaeth o wasanaethau orthodontig yng Nghymru? OAQ(4)2261(FM)**W**

**5. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y disgwyliadau ar gyfer economi wledig Cymru yn y dyfodol? OAQ(4)2268(FM)

**6. Gwenda Thomas (Castell-nedd)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r sector manwerthu annibynnol? OAQ(4)2271(FM)**W**

**7. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wneud y gorau o'r manteision a fydd yn deillio o gemau Cwpan Rygbi'r Byd 2015 a gaiff eu chwarae yng Nghaerdydd? OAQ(4)2269(FM)

**8. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal iechyd llygaid? OAQ(4)2272(FM)

**9. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl hŷn i ddychwelyd i'r gweithle? OAQ(4)2266(FM)

**10. Russell George (Sir Drefaldwyn):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf busnesau yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)2263(FM)

**11. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i roi hwb i economi Canol De Cymru? OAQ(4)2267(FM)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r effaith y bydd Llywodraeth newydd y DU ei chael ar allu Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau bach yng Nghaerdydd? OAQ(4)2270(FM)

**13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau iechyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro? OAQ(4)2258(FM)

**14. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y dreth ystafell wely ar bobl Dyffryn Clwyd? OAQ(4)2260(FM)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch dyfodol fformiwla Barnett? OAQ(4)2257(FM)